Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# RHEOLWR TECHNEGOL A RHEOLWR PROSIECT YR YSTAFELL REOLI

**Ystafell Reoli – Y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd, Llanelwy**

**Parhaol, 37 awr yr wythnos**

**GTAGC Gradd 09 £40,221 i £43,421 y flwyddyn**

Rydym yn awyddus i benodi Rheolwr Technegol A Rheolwr Prosiect Yr Ystafell Reoli, a fydd yn darparu cefnogaeth dechnegol arbenigol a chefnogaeth ddatblygu i Systemau Ystafell Reoli GTAGC yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli ar y cyd â Rheolwr Systemau'r Ystafell Reoli.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael budd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac yn ei defnyddio mewn ffordd sy'n ei wneud mor effeithlon a chost-effeithiol ag sy'n bosibl. Byddwch yn Rheolwr Prosiect ar brosiectau technegol amrywiol yr Ystafell Reoli a'r adran TGCh a byddwch yn ymgymryd â thasgau rheoli prosiect technegol, ymchwil a dadansoddi yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli. Yn ogystal, byddwch yn bwynt cyswllt o fewn yr Ystafell Reoli mewn perthynas ag achrediad, polisi a gweithdrefn diogelwch Systemau'r Ystafell Reoli.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus o leiaf ddwy flynedd o brofiad yn gweithio ar brosiectau Ystafell Reoli a TGCh mawr, a phrofiad o reoli contractwyr yn ystod camau gweithredu a chyflawni prosiectau. Os oes gennych wybodaeth a phrofiad blaenorol o weithredu polisi, strategaeth a monitro perfformiad yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Dylai ymgeiswyr fod â phrofiad ymarferol o gynhyrchu adroddiadau a dadansoddi gwybodaeth reoli. Rhaid i ddeiliad y swydd allu casglu a dadansoddi gwybodaeth reoli a chyflwyno canfyddiadau i uwch reolwyr a gallu cyflwyno atebion i unrhyw broblemau a all godi. Efallai y bydd gofyn i chi weithio mewn gwahanol leoliadau sy'n perthyn i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Ystafell Reoli.

Sylwch fod y swydd hon yn destun Archwiliad Fetio Lefel 2 llwyddiannus gan yr Heddlu a geirdaon boddhaol. I gael manylion pellach ynglŷn â'r rôl, edrychwch ar y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn ymgeisio drwy e-bost at: recruitment@northwalesfire.gov.wales

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00, hanner dydd, 16/10/24**

*Cedwir at y dyddiad cau yn llym ac ni fydd unrhyw eithriadau.*

disability confident COMMITTED

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.